



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru

Chwefror 2018

Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru

Cyflwyniad

Dull o roi terfyn ar ddiartrefedd yw 'Tai yn Gyntaf', sy'n canolbwyntio ar adferiad ac ar symud pobl ddiartref yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol, ac sydd yna'n darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol fel y bo angen.

Mae Tai yn Gyntaf yn gysyniad a gychwynnodd yn yr Unol Daleithiau yn yr 1990au, ac ers hynny mae wedi cael ei hyrwyddo'n helaeth ledled Ewrop a thu hwnt. Mae'r cysyniad wedi'i seilio ar yr egwyddor y dylai pobl ag anghenion cronig o ran tai a chymorth gael cynnig tai 'normal' yn gyntaf gyda chymorth wedi'i deilwra ar sail eu hanghenion, yn hytrach na bod disgwyl iddynt fynd i hostel neu lety interim arall lle cânt eu paratoi ar gyfer llety tymor hwy y byddant yn symud iddo wedyn.

Mae'r cysyniad wedi'i roi ar waith yn fwyaf penodol gyda phobl sy'n cysgu allan neu sydd o leiaf mewn tai ymylol iawn, ac sydd ag anghenion cronig a chymhleth o ran cymorth.

Y cyd-destun o ran polisi yng Nghymru

Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysgu allan yn gofyn am ymateb strategol ar y cyd. Gall Tai yn Gyntaf chwarae rôl bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â nifer y bobl sy'n cysgu allan am gyfnod hwy, yn enwedig ymhlith y sawl sy'n amharod i fyw mewn hosteli neu sefyllfaoedd eraill lle byddent yn rhannu llety, neu'r sawl sy'n methu â gwneud hynny. Yn 2017 darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cysgu allan, ac mae'n cefnogi ystod o brosiectau newydd sy'n seiliedig ar ddulliau gweithredu Tai yn Gyntaf.

Erbyn canol 2017 dim ond nifer bach o brosiectau Tai yn Gyntaf oedd ar waith ar draws Cymru, ond maent yn dangos gwerth rhoi'r dull gweithredu hwn ar waith ar raddfa ehangach o lawer.

Cefndir

Ar ôl cychwyn yn yr Unol Daleithiau cafodd Tai yn Gyntaf ei roi ar waith yn Ewrop yn y Ffindir i ddechrau, ac yna ar draws ystod eang o wledydd. Mae cryn dipyn o ymchwil wedi'i chyflawni ynghylch Tai yn Gyntaf, gan gynnwys ymchwil gan Michele Lancione o Brifysgol Caerdydd. Trefnodd swyddogion ddigwyddiad datblygu polisi ar 3 Ebrill 2017 gyda Dr Lancione, lle rhoddwyd ystyriaeth i lawer o'r dystiolaeth ymchwil. Mae'r papur hwn yn ystyried y trafodaethau a gafwyd yn y digwyddiad dan sylw. Mae hefyd yn ystyried y gwaith o ddatblygu Tai yn Gyntaf yn Lloegr gan Homeless Link a Crisis, yn ogystal â chanllawiau Ewropeaidd gan FEANTSA.

Ceir tystiolaeth gref bod Tai yn Gyntaf, pan gaiff ei ddarparu gyda'r cymorth priodol, yn hynod o effeithiol o safbwynt sicrhau llety sefydlog. Ceir tystiolaeth hefyd o fanteision cymdeithasol ehangach a manteision ehangach o ran cost, er bod y dystiolaeth honno'n llai pendant.

Cafodd Tai yn Gyntaf ei gymeradwyo gan FEANTSA – y sefydliad a ariennir gan yr UE ac sy'n gweithio i hybu arfer da ym maes diartrefedd – yn ei gynhadledd yn 2016, a mabwysiadodd y sefydliad gyfres o egwyddorion craidd ar gyfer Tai yn Gyntaf fel a ganlyn:

- Mae tai yn hawl ddynol
- Dylai fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth ddewis a rheolaeth
- Nid yw tai'n amodol ar gymorth neu driniaeth
- Mae'r dull gweithredu yn canolbwyntio ar adferiad
- Mae'r dull gweithredu'n ymwneud â lleihau niwed
- Ceir ymgysylltu gweithredol heb unrhyw orfodaeth
- Mae'r gwaith cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mae cymorth hyblyg ar gael cyhyd ag y bo ei angen.

Egwyddorion

Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r egwyddorion uchod.

Craidd y dull gweithredu yw y dylai pobl symud yn syth i'w llety hunangynhwysol eu hunain – nad yw'n amodol ar ymgysylltu â chymorth – ac y dylai cymorth hyblyg a dwys yn y gymuned gael ei gynnig ar sail anghenion yr unigolyn. Dylai fod gan yr unigolyn sicrwydd deiliadaeth normal.

Dylai'r unigolyn fod yn ganolog i'r gwasanaeth, gan arfer cymaint o ddewis a rheolaeth ag sy'n bosibl. Dylai'r cymorth fod yn seiliedig ar gryfderau'r unigolyn yn hytrach na'i broblemau, a dylai gwasanaethau gymryd camau rhagweithiol i annog ymgysylltu.

Mae Llywodraeth Cymru a Rough Sleepers Cymru yn awyddus i weld modelau ar sail dull gweithredu sy'n cynnwys gweithiwr allweddol, lle mae rhywun yn cydweithio'n agos â'r unigolyn sy'n cysgu allan ac yn ei helpu i symud o'r stryd i gartref sefydlog.

Yn ogystal mae cyllidebau unigol yn elfen bwysig y gellir ei defnyddio i ymgysylltu â'r unigolyn sy'n cysgu allan a'i gymell, er mwyn ei helpu i berchenogi ei gynnydd ei hun.

Yn ogystal â'r model 'pur' mewn llety gwasgaredig, caiff Tai yn Gyntaf ei weithredu weithiau mewn lleoliad ar y cyd lle caiff gwasanaethau cymorth eu darparu ar y safle, sy'n aml yn addasiad o hostel. Gall y prosiect Tai yn Gyntaf fod yn seiliedig hefyd ar ailgartrefu sydyn ar ôl cyfnod byr mewn llety dros dro, yn rhan o ddull gweithredu ehangach a arweinir gan dai.

Mae Tai yn Gyntaf yn wahanol i gymorth cyffredinol fel y bo angen. Diben penodol Tai yn Gyntaf yw helpu pobl sydd ag anghenion dwys a chymhleth ond sy'n methu â chael budd o hostel neu leoliad dros dro arall a rennir. Felly, mae angen iddynt gael eu cartrefu mewn llety cyffredinol gyda phechyn o gymorth dwys yn rhan o raglen ryngasiantaethol benodol. Nid yw Tai yn Gyntaf yn rhannu'r un nodweddion yn union â chymorth fel y bo angen, ond mae'n rhannu rhai o'i nodweddion.

Mewn ardaloedd gwasgaredig gellir defnyddio Tai yn Gyntaf i helpu pobl sy'n rhan o drefniant unigol yn hytrach na rhaglen a ariennir. Gall egwyddorion Tai yn Gyntaf gael eu gweithredu'n ehangach a'u defnyddio i gartrefu unrhyw un ag anghenion cymhleth, sy'n symud o sefyllfaoedd neu ofal mewn sefydliad preswyl – lle mae gan bobl anghenion lluosog – ac nad oes ganddo lety sefydlog.

Caiff yr egwyddorion eu hegluro ymhellach yn y rhestr ganlynol o brif nodweddion.

Prif nodweddion

- Gweithiwr allweddol/tîm sy'n cydlynu er mwyn helpu'r unigolyn i symud o'r stryd i lety sefydlog gyda chymorth parhaus
- Gwasanaethau yn gweithredu'n rhagweithiol i hybu ymgysylltu gan y defnyddiwr gwasanaeth
- Mynediad i gyllidebau unigol er mwyn cymell a grymuso'r unigolyn i symud i lety
- Cymorth gyda thenantiaeth a sgiliau bywyd
- Dewis a rheolaeth yn nwylo'r unigolyn wrth asesu ei gryfderau a'i anghenion ac wrth ystyried sut y bydd yn symud ymlaen
- Trefniadau ar gyfer adnabod llety addas ar draws sectorau, gan ddefnyddio ystod o drefniadau diogelu a chymhellion ar gyfer landlordiaid preifat
- Ymrwymadau gan landlordiaid cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o gynllunio Tai yn Gyntaf ac i alluogi hynny drwy eu polisïau dyrannu
- Ymarfer sy'n seiliedig ar seicoleg/trawma'n cael ei roi ar waith
- Cyngor a gwaith paratoi ariannol er mwyn sicrhau bod llety'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy
- Cymorth i gael mynediad i lwybrau sy'n arwain at gyflogaeth
- Gwasanaethau statudol yn cael eu cynnwys, yn enwedig gwasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau, gydag ymrwymadau i gefnogi trefniadau unigol wedi'u teilwra o ran cymorth/gofal
- Asesiadau risg yn cael eu cynnal
- Mynediad i gymorth yn barhaus os oes angen
- Arfer a phrofiadau'n cael eu rhannu, gan gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth
- Canlyniadau'n cael eu monitro.

Yr achos dros Tai yn Gyntaf yng Nghymru

Mae'r manteision y gall Tai yn Gyntaf eu cynnig i Gymru yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n ffordd uniongyrchol o leihau nifer y bobl sy'n cysgu allan
- Mae'n galluogi ac yn cymell pobl, nad ydynt efallai'n addas neu'n barod i fyw mewn amgylchedd hostel, i symud i amgylchedd 'normal' mwy sefydlog lle gellir mynd i'r afael yn fwy effeithiol â'u hanghenion o ran cymorth
- Mae'n annog yr unigolyn i reoli ei fywyd (gall cyllidebau unigol gynorthwyo o ran hynny)
- Mae'n rhoi mwy o sefydlogrwydd, sy'n ei gwneud yn haws gweithio tuag at sicrhau cyflogaeth a chyflawni nodau eraill
- Mae'n lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill.

Meini prawf gweithredu ar gyfer Tai yn Gyntaf

Bydd angen i awdurdodau lleol a phartneriaid benderfynu pwy y byddant yn cynnig dull gweithredu Tai yn Gyntaf iddynt. Bydd partneriaid lleol am benderfynu pa mor eang y caiff y dull gweithredu ei roi ar waith, gan ystyried y graddau y mae cymorth, tai a chapasiti arall ar gael a chan ystyried materion yn ymwneud â risg.

Mae'n hanfodol bod pob landlord cymdeithasol yn cydweithredu er mwyn cyflwyno dull gweithredu Tai yn Gyntaf, a'u bod yn galluogi ymgeiswyr sydd â chefnidir heriol i

gael mynediad i'w llety lle byddant yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen gan asiantaethau perthnasol, yn hytrach na'u bod yn disgwyl i bobl gyfiawnhau eu gallu i gynnal tenantiaeth.

Yn ogystal gall Tai yn Gyntaf gael ei weithredu'n effeithiol yn y sector rhentu preifat fel y dangoswyd eisoes gan brosiect Tai yn Gyntaf Wallich ar Ynys Môn.

Bydd angen o hyd cael rhywfaint o lety brys. Bydd yr angen am rywfaint o lety â chymorth ar safleoedd sefydlog yn parhau, ee ar gyfer pobl sy'n dianc rhag camdriniaeth ac ar gyfer pobl ifanc agored i niwed.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Tai yn Gyntaf chwarae rôl gynyddol mewn dulliau lleol o fynd i'r afael â digartrefedd – ac achosion o gysgu allan, yn benodol – a dylai gael ei ystyried ym mhob cyd-destun lleol. Bydd hynny'n cael ei adlewyrchu mewn canllawiau statudol sydd ar ddod. Dylai'r egwyddorion a'r canllawiau hyn lywio'r modd y caiff dulliau gweithredu Tai yn Gyntaf eu cynllunio a'u rhoi ar waith yng Nghymru.